CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

225/01

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF

## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006

(2½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

Darllenwch y tri darn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: **Cantre'r Gwaelod:** Addasiad o straeon *Cantre'r Gwaelod* T. Llew Jones a *Cân Gwyddno* Rhiannon Ifans
Darn Darllen 2: **Y boen ar 'ynys paradwys':** Rhan o adroddiad Iolo ap Dafydd ar BBC Cymru'r Byd, 10 Ionawr, 2005 *www.bbc.co.uk*
Darn Darllen 3: **Ceredigion: Y Borth, Clarach ac Ynyslas** *(Addasiad) www.twristiaeth.ceredigion*

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Cantre'r Gwaelod (Darn Darllen 1)**
**Y boen ar 'ynys paradwys' (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Beth yw enw'r wlad sydd bellach o dan y môr? [1]
(ii) Rhowch **ddau** reswm am foddi'r lle hwn. [2]
(iii) Beth oedd rhwng Aber-arth ac Enlli ganrifoedd maith yn ôl? [2]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Pa ynys yw 'ynys paradwys' yn y darn darllen? [1]
(v) Pa **ddwy** dref wyliau a gafodd eu dinistrio gan y tonnau? [2]
(vi) Pa bethau a ddifethwyd yn llwyr yn y cymunedau? [2]

**[10]**

**2. Y boen ar 'ynys paradwys' (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** ysgrifennwch adroddiad i bapur newydd yn adrodd hanes y tsunami rai dyddiau wedi'r digwyddiad.

Dylech gyfeirio at **dri** chyfnod yn hanes y lle:

- cyn y digwyddiad;
- y digwyddiad ei hun;
- y dyddiau yn dilyn y digwyddiad.

[28]

Ysgrifennwch ar ffurf adroddiad. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o'r **darn darllen hwn yn unig**.*

*Dylech ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

**[30]**

**3. Cantre'r Gwaelod (Darn Darllen 1)**
**Ceredigion: Y Borth, Clarach ac Ynyslas (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** a **Darn Darllen 3** nodwch yn fyr bethau sy'n debyg neu'n wahanol rhwng y ddau ddarn.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (**tri** pheth o Ddarn Darllen 1 a **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [9]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (**dau** beth o Ddarn Darllen 1 a **dau** beth o Ddarn Darllen 3). [6]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn y cwestiwn hwn. [2]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau. [3]

**[20]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir. **[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori am ddigwyddiad sy'n newid bywyd rhywun neu rywrai mewn unrhyw ffordd.

*Ceisiwch wneud yn siwr bod eich stori'n ddiddorol a bod cymeriadau a sgwrs ynddi.*

*(b)* **YMSON:**

Ysgrifennwch ymson person sy'n helpu rhywun arall mewn rhyw ffordd.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, ac mai chi sy'n meddwl ac yn siarad â chi eich hun yn y presennol.*

*(c)* **DISGRIFIAD:**

Ysgrifennwch ddisgrifiad manwl o unrhyw olygfa drawiadol - naill ai golygfa hardd neu olygfa drychinebus.

*Cofiwch ddweud beth yw'r olygfa a chynnwys manylion diddorol am yr olygfa.*

*(ch)* **ARAITH neu ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae'n rhaid helpu pobl llai ffodus na ni!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

225/01 - A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF

## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006

(2½ awr)

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN SYLFAENOL**


| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

## DARN DARLLEN 1

**Cantre'r Gwaelod:** *Addasiad o straeon* ***Cantre'r Gwaelod*** *T. Llew Jones a* ***Cân Gwyddno*** *Rhiannon Ifans*

Ganrifoedd maith yn ôl, nid môr oedd rhwng Aber-arth ac Enlli, ond tir glas a dolydd ffrwythlon. Ie, a thai a gerddi hefyd, a phentrefi tawel a gwartheg a defaid yn pori, gwŷr a gwragedd wrth eu gwaith, a phlant yn chwarae.

Cantre'r Gwaelod oedd enw'r wlad hyfryd honno sydd bellach o dan y môr. Beth a ddigwyddodd iddi? Wel, fel hyn y bu hi.

Er bod Cantre'r Gwaelod yn lle braf iawn i fyw ynddo, roedd un bai mawr yn perthyn i'r wlad - roedd y tir yn is na'r môr. Ac felly fe fu'n rhaid adeiladu muriau cryfion i rwystro'r môr rhag llifo i mewn dros y tir. Ar ben y muriau hyn, pan fyddai'r llanw'n dod i mewn, cerddai gwylwyr i ofalu nad oedd y môr yn tyllu trwy'r muriau. Ac os llwyddai'r môr i dorri trwy'r mur ar ambell noson stormus, roedd yna gloch fawr mewn tŵr uchel yn cael ei chanu fel rhybudd i'r bobl ddod ar frys i gau'r twll yn y mur cyn i'r môr foddi'r wlad.

Gan fod gofalu am y muriau mawr yn waith mor bwysig, roedd yn rhaid cael un o ddynion pwysica'r wlad i fod yn gyfrifol am y gwaith. Dewisodd brenin y wlad, sef Gwyddno Garan Hir, y Tywysog Seithenyn fel meistr ar y muriau.



Un noson dywyll yn y gaeaf, roedd gwledd bwysig iawn ym mhlas y Brenin Gwyddno. Roedd y Tywysog Seithenyn, wrth gwrs, yn y wledd, ac erbyn iddi dywyllu'r noson honno roedd e wedi yfed llawer gormod o win, ac wedi meddwi.

A'r noson honno cododd y gwynt yn gynnar. Chwythodd y gwynt y môr drwy'r tyllau yn y morglawdd. Rhuthrodd y tonnau i fyny'r llwybr at ddrws trwm y gegin. Felly y chwipiwyd y dŵr heli drwy ffenestri'r llys ac o dan ei ddrysau, nes boddi pawb yn y lle. Pawb ond un.

Pan welodd Gwyddno Garan Hir fod y môr yn llanw'r llys ac nad oedd gobaith iddo wneud mwy nag achub ei groen ei hun, rhedodd nerth ei draed i'r mynyddoedd. Yno, gellid ei glywed yn canu cân drist, drist, bob yn ail ag ochenaid hir, hir. Ac os byddwch chi'n sefyll yn agos i'r fan lle'r oedd Gwyddno y noson honno, fe'i clywch chi ef ar adain y gwynt hyd heddiw yn sibrwd ei gân yn y gwyll. Ond bydd yn rhaid i chi fod yn lwcus iawn i glywed y clychau'n canu o dan y dŵr.

mur / muriau - wal / waliau

## DARN DARLLEN 2




**Ein gohebydd Iolo ap Dafydd sydd newydd ddod yn ôl o Sri Lanka lle gwelodd effaith y ddaeargryn a cholled y trigolion wrth geisio ailadeiladu eu dyfodol.**

Mae'r argraffiadau cyntaf yn tueddu i aros, ac mewn 'paradwys o ynys' lle mae'n haf o hyd o ran tywydd a hinsawdd, mae Sri Lanka mewn poen. Y boen sy'n dod o chwalfa natur na welodd neb erioed ei debyg, colli 30,000 o ynyswyr wedi'r tsunami. Gall rhywun deimlo'r boen o golli teulu a phlant, y pryder am golli cartref a bywoliaeth, yr ofn, yr amheuaeth a'r ansicrwydd am y dyfodol.


Teulu o Sri Lanka yn edrych ar y difrod

Dw i wedi gweld llai o ddinistr yn yr hen Iwgoslafia ac Irac na'r hyn a welais yn Gallae a Hikkaduwa yn Sri Lanka.

Dyma ddwy ganolfan ymwelwyr, dwy dref wyliau wedi eu dinistrio oherwydd tonnau 30 troedfedd o uchder. Mewn mannau mae'r môr wedi treiddio hyd at ddwy filltir i mewn i'r tir mawr. Mae rhai cymunedau wedi eu difetha'n llwyr, pob tŷ, cwch pysgota, bwyty a pholyn teleffon yn yfflon. Ac ymysg yr adfeilion mae pobl yn glynu'n styfnig wrth yr hyn sy'n weddill.

Dywedodd Daisy Lowe o Donypandy, ac yn wreiddiol o Batticaloa ar arfordir dwyreiniol yr ynys, fod y wên naturiol ar wyneb y Sri Lanciad cyffredin wedi diflannu am y tro. Cymaint ydy'r gofid a'r boen fel bod goroesi a byw yn bwysicach na'r wên arferol.

Mae miloedd o gyrff heb eu darganfod eto, mae'n debyg, a nifer wedi anobeithio canfod eu hanwyliaid. Problem fawr arall ydy ailgartrefu tuag un miliwn o bobl. O ystyried penderfyniad y llywodraeth i atal unrhyw un rhag byw rhwng 200 a 300 metr i'r traethau bydd canfod tir ar ynys mor boblog a chodi tai'n wyrth cynllunio ac yn wyrth ariannol. Yn olaf, bydd yn rhaid i'r ynyswyr wynebu effeithiau seicolegol y tsunami.

Er haelioni'r byd, bydd asiantaethau dyngarol, sy'n gweithio'n ddiflino ers pythefnos a hanner, yn gorfod ein hannog i roi mwy na hen ddillad a blancedi i godi Sri Lanka yn ôl ar ei thraed.

*(Rhan o adroddiad Iolo ap Dafydd)*

asiantaethau dyngarol - mudiadau fel Oxfam, Cymorth Cristnogol




*"Pan oeddwn i ynghanol y don roeddwn i'n teimlo fel morgrugyn bach."*

Llun gan Suresh Kumar, 14 oed, a oroesodd y tsunami.

© Mennonite Central Committee

## DARN DARLLEN 3

**Ceredigion: Y Borth, Clarach ac Ynyslas** (*Addasiad* ***www.twristiaeth.ceredigion***)




Tu cefn i ruban hir o draeth melyn saif hen bentref pysgota'r Borth. Mae'r traeth yn un llyfn iawn ac mae llawer un yn cael ei dwyllo gan olygfa'r cerrig mân a welir yn disgyn yn serth i'r môr ar lanw uchel. Pan â'r llanw allan gwelir milltir ar ôl milltir o dywod melyn braf.

Oherwydd ei draeth llyfn mae'r Borth yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd sydd â phlant bach, a rhai sy'n hoffi hwylfyrddio.

Mae ardaloedd y Borth, Clarach a'r Ynyslas yn boblogaidd tu hwnt gyda gwersyllwyr ac mae rhai o'r meysydd carafanau a gwersylla yn y fro gyda'r gorau yng Nghymru.

Dywed hen chwedl am yr adeg pan oedd erwau maith o dir, sydd bellach o dan ddyfroedd bae Ceredigion, yn dal yn dir sych. Yn debyg i diroedd yn yr Iseldiroedd, roedd cyfres o furiau yn amddiffyn Cantre'r Gwaelod rhag y dŵr. Un noson cynhaliwyd gwledd fawr ac, yn groes i'r gorchymyn, bu Seithenyn - y gwyliwr ar y mur - yn esgeulus nes gadael y môr i mewn. Boddwyd Cantre'r Gwaelod oherwydd hyn.

Oes unrhyw wirionedd yn yr hen chwedl? Wel, ar draeth y Borth ar adegau arbennig o'r flwyddyn bydd y llanw yn datgelu olion hen, hen goedwigoedd gydag ysgerbydau boncyffion y coed yn dangos eto drwy'r tywod.

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Secondary Education**

225/01-B

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
# *WELSH: FIRST LANGUAGE*

## HAEN SYLFAENOL
## *FOUNDATION TIER*

A.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006
*A.M. TUESDAY, 13 June 2006*

(2½ awr)
*(2½ hours)*

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**
***For information: for the attention of the Examinations Officer***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.
Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A 12 page answer book.*
*Reading Material for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Answer the **three** questions in Section A and **one** question in Section B.*

*You are advised to spend approximately 1¾ hour on Section A so that you may spend at least ¾ hour on Section B.*

*Write your answers in the booklet provided.*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

*No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.*